

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

24 Tachwedd 2021

Annwyl Eluned

Adferiad wedi COVID-19

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol y bydd ein cyfarfod o'r Pwyllgor ar 7 Hydref yn canolbwyntio'n llwyr ar archwilio safbwyntiau academyddion arbenigol ar y materion allweddol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r adferiad wedi COVID-19.

Mae nodyn o'r materion y gwnaethom eu trafod gyda'r academyddion ar gael ar ein gwefan:

<https://busnes.senedd.cymru/documents/s119993/Adfer%20yn%20dilyn%20COVID-19%20academyddion%20Nodyn%20or%20materion%20a%20drafodwyd.pdf>


Clywsom gan academyddion yn ystod y sesiwn am bwysigrwydd ymchwil glinigol yng Nghymru. Yn ystod ein cyfarfod, awgrymwyd y dylai gofal iechyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth, neu'n cynhyrchu dystiolaeth. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU a chenhedloedd datganoledig eraill i greu amgylchedd ymchwil glinigol o'r radd flaenaf yn y DU ond rydym yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i wreiddio a chefnogi'r broses o gyflawni'r weledigaeth hon ar draws GIG Cymru.

Roedd yn peri pryder i ni glywed nad oedd y tîm ymchwil a oedd yn arwain Arolygon Llesiant COVID-19 Cymru – sy'n edrych ar effaith barhau pandemig COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth – yn ymwybodol a oedd Llywodraeth Cymru yn tynnu ar eu canfyddiadau neu'r set ddata gysylltiedig i lywio'r broses o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag academyddion a'u hymchwil er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a datblygu polisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb erbyn dydd Gwener 14 Ionawr 2022.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

